**Adroddiad i'r:** **Cyngor Sir**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **7 Mai 2013**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cyng. Barbara Smith/ Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Awdur yr Adroddiad:** **Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Teitl: Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011**

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 (y Mesur) a'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Mesur.

## 2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweithredu'r Mesur a cheisio safbwyntiau'r Aelodau ar y ffordd ymlaen mewn perthynas â'r materion hynny sy'n aros i gael eu gweithredu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae nodyn briffio manwl mewn perthynas ag amryw ddarpariaethau'r Mesur ynghlwm fel Atodiad 1.

4.2 Mae 10 rhan i'r Mesur fel sydd wedi'u gosod yn yr Atodiad. Y rhai mwyaf perthnasol ar gyfer yr adroddiad hwn yw Rhannau 1, 5 a 6.

4.3 Mae Rhan 1 yn dwyn y teitl "Cryfhau'r Ddemocratiaeth Leol". Yn y rhan hon mae mesurau i hyrwyddo a chefnogi aelodaeth awdurdodau lleol. Mae gofyn ar i'r Cyngor holi aelodau etholedig mewn perthynas ag amser a lleoliad y cyfarfodydd. Mae'r arolwg hwn wedi'i gwblhau a dynododd y canlyniadau ffafriaeth i gynnal y cyfarfodydd yn Rhuthun yn ystod y dydd. Gwnaed gwaith pellach gan rai rheolwyr i'r Prif Weithredwr a fydd yn adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac i'r Aelodau mewn perthynas ag amser a lleoliad y cyfarfodydd.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau hefyd bod rhywfaint o arian ar gael trwy gyfrwng grantiau yn ystod y flwyddyn hon i gynorthwyo'r Cynghorau i ddarparu gweddarlledu yn eu cyfarfodydd. Nid yw hyn yn rhan o'r Mesur ond gallai gynorthwyo wrth wneud cyfarfodydd yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

4.5 Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n bosibl i aelodau allu bod mewn cyfarfodydd o bell. Nid yw'r ddarpariaeth hon ar waith eto ond mae arian grant ar gael i gynorthwyo ei gweithredu pan ddaw i rym. Mae'n debygol o ddod i rym yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn galendr hon. Bydd hyn yn golygu na fydd cyfarfod heb gworwm os oes cyfleusterau ar gael sy'n galluogi i aelod, nad ydyw yn yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod, fynychu o bell.

4.6 Cyflawnir hyn pan fydd aelod sy'n mynychu o bell yn gallu gweld a chlywed y rhai sy'n siarad yn y cyfarfod a gall y rhai sy'n bresennol yn lleoliad y cyfarfod glywed a gweld yr aelod sy'n mynychu o bell. Mae angen mynd i'r afael â materion llywodraethol a thechnolegol cyn y gellir rhoi hyn ar waith.

4.7 Mae'r Rhan hon yn gofyn hefyd am roi trefniadau yn eu lle i aelodau unigol lunio adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau fel aelod. Rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau i gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol hyn. Rhaid i'r awdurdod ystyried y cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd drafft ar ddiwedd yr hydref 2012 ac fe'i ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae disgwyl fersiwn derfynol y cyfarwyddyd. Bwriadwn ddarparu templed i aelodau a fydd yn cael ei lenwi ymlaen llaw gyda gwybodaeth megis ystadegau presenoldeb. Bydd aelodau'n cwblhau eu hadroddiad ar eu gweithgareddau. Bydd rhaid inni eu harchwilio yn erbyn y cyfarwyddyd ac yna trefnu'u cyhoeddi ar modern.gov.

4.8 Mae'r Mesur yn gofyn hefyd i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol ar gyfer eu haelodau. Dylai pob aelod gael y cyfle hefyd i dderbyn adolygiad o'u hanghenion hyfforddi a datblygu bob blwyddyn. Mae'r cyfarwyddyd yn awgrymu y dylai fod gan bob aelod ei gynllun datblygiad personol ei hun. Mae'n argymell bod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyfrifoldeb cyffredinol am benderfynu ar yr hyn y dylid ei ystyried yn hyfforddiant rhesymol. At hynny, argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnig y lefel briodol o arian y dylid ei ryddhau i brynu hyfforddiant allanol. Cynhelir Gweithdy i Aelodau ar 22 Ebrill i ystyried materion mewn perthynas â hyfforddiant a datblygiad.

4.9 Mae a wnelo Rhan 5 y Mesur â dirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau ac aelodau unigol. Ceir darpariaeth i wneud y meini prawf ar gyfer sefydlu pwyllgorau ardal yn fwy hyblyg ac i ddirprwyo grymoedd gwneud penderfyniadau iddynt.

4.10 Ceir darpariaeth hefyd i'r Arweinydd allu gwneud trefniadau i aelod anweithredol wneud penderfyniadau dirprwyedig mewn perthynas â swyddogaeth weithredol. Gall y Cyngor hefyd ddirprwyo penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau anweithredol i aelodau anweithredol. Ni ellir ymarfer y pwerau hyn ond mewn perthynas â ward y Cynghorydd ei hun neu mewn perthynas â chorff allanol y cawsant eu penodi iddo. Gall gweinidogion Cymru wneud Gorchymyn sy'n penodi swyddogaethau na ddylid eu dirprwyo a gallent gyhoeddi cyfarwyddyd. Nid ydynt wedi gwneud y naill beth na'r llall eto.

4.11 Mae Rhan 6 yn cyfeirio at Graffu. Rhoddir grym i weinidogion Cymru wneud rheoliadau fyddai caniatáu i ddau neu fwy o awdurdodau sefydlu cydbwyllgor craffu. Cyhoeddwyd Rheoliadau a chyfarwyddyd drafft sy'n awgrymu y byddai angen cytundeb ffurfiol rhwng yr awdurdodau cyfrannog sy'n delio â materion gweinyddol cyn y gellid sefydlu'r fath bwyllgor. Gosodir manylion y rhain yn yr Atodiad.

4.12 Ceir darpariaethau sy'n gofyn ar i'r cynghorau sicrhau bod eu trefniadau craffu'n craffu gwasanaethau darparwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu hardal. Mae'r gofyn hwn yn ymestyn i gydbwyllgorau craffu. Gallai fod yn ofynnol i unigolion dynodedig ddarparu gwybodaeth a mynychu cyfarfodydd pwyllgor. Nid yw'r darpariaethau hyn mewn grym eto. Gallai Gweinidogion Cymru wneud Gorchymyn sy'n dynodi cyrff neu unigolion a fydd yn destun i'r craffu hwn. Nid oes Gorchymyn wedi'i wneud eto.

4.13 Mae cryn dipyn o bwyslais Rhan 6 y Mesur wedi'i fwriadu i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd yng ngwaith craffu. Mae cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi. Mae hyn yn awgrymu y dylid gwneud rhagor o ymdrech i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl a swyddogaeth pwyllgorau craffu gan gynnwys sut gall dinasyddion a chymunedau helpu ffurfio a chyfrannu at Raglenni Gwaith i'r Dyfodol y pwyllgorau craffu (CSDd – pwyllgorau archwilio).

4.14 Mae'r Cyfarwyddyd yn argymell bod awdurdodau'n datblygu mecanweithiau mewnol i alluogi aelodau'r cyhoedd i ymgysylltu'n well yng ngweithgareddau craffu. Gallai'r rhain gynnwys:

- y gallu i ofyn bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda i'w hystyried gan bwyllgor craffu (ar yr amod ei bod o berthnasedd uniongyrchol i bwnc y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol).
- cyflwyno tystiolaeth (ar lafar neu ar bapur) ger bron adolygiad neu ymchwiliad craffu sydd yn yr arfaeth neu ar y gweill.
- cymryd rhan fel aelod cyfetholedig
- cyflwyno tystiolaeth (ar lafar neu ar bapur) sy'n ymwneud â galw penderfyniad gweithredol i mewn

4.15 Mae'r cyfarwyddyd yn argymell datblygu protocolau i gynnwys:

- trefniadau siarad cyhoeddus mewn Pwyllgor Craffu (CSDd – Pwyllgor Archwilio)
- budd y cyhoedd – cyfarfod is-bwyllgor neu Grŵp Tasg a Gorffen
- rheoli cais am graffu (sy'n cynnwys deisebau)
- delio â cheisiadau am gyfetholiad cyhoeddus

4.16 Dywed y cyfarwyddyd fod Llywodraeth Cymru o'r gred fod gan y sector gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu mewnbwn i ymgysylltiad craffu gyda'r trydydd sector megis cynnwys ystyriaeth i gyfethol, cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng cadeiryddion craffu (CSDd – archwilio) a

chynrychiolwyr y sector gwirfoddol a defnyddio rhwydweithiau'r sector gwirfoddol fel ffordd o roi gwybodaeth ac o ymgysylltu â dinasyddion difreiniedig.

4.17 Mae'r Mesur yn gwahardd unrhyw aelod o bwyllgor craffu (CSDd – pwyllgor archwilio) rhag pleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod os rhoddwyd chwip y blaid i'r aelod mewn perthynas â'r cwestiwn hwnnw. Dylid darparu rheolau sefydlog i aelodau ddatgan unrhyw chwip bleidiol ym mhob cyfarfod.

Os effeithir ar benderfyniad y pwyllgor craffu (CSDd – pwyllgor archwilio) yn faterol trwy fynd yn groes i'r rhan hon, dylid trin y penderfyniad fel petai heb gael ei wneud. Effeithir yn faterol ar benderfyniad os pleidleisiodd un neu'n fwy o aelodau'r pwyllgor yn groes i'r rhan hon a phe bai eu pleidleisiau wedi cael eu diystyru byddai'r penderfyniad wedi cael ei effeithio arno.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw darpariaethau'r Mesur yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid yw'n glir eto beth fydd costau darpariaethau'r Mesur. Bydd tipyn yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir o ran ei weithrediad a'r adnoddau angenrheidiol o ganlyniad i hynny.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a Sgriniwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Dechrau'r ymgynghori gydag aelodau yw'r adroddiad hwn.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes angen un.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Ceir risg o her i'r Cyngor os na fydd wedi gweithredu rhai o ddarpariaethau'r Mesur yn gywir neu os bydd yn methu ystyried y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y gweinidogion.

## 10. Y Grym i wneud y Penderfyniad

10.1 Ni cheisir penderfyniad